Cyngor Cymuned Ganllwyd

Gorffennaf 10fed 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, G.Jones, S.Roberts,C.Dixon,G.Hughes a S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Dim wedi ei dderbyn

**Cofnodion Mehefin 2024.**

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

**Grant y Parc**- mae Cyng Jones yn derbyn y modelau gan Rhodd Humphreys yn yr wythnos nesaf, bydd gwaith adeiliadu'r unedau arddangos yn cychwyn wedyn.

**Arwyddion gyrru-** Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi mynychu'r ardal leol i glirio'r malurion / dail sy'n cwmpasu'r arwyddion terfyn cyflymder.

**Greame Stringer CNC Llwybrau sgwteri Tramper.**

Yn anffodus nid oedd Greame gallu mynychu'r cyfarfod y cyngor i drafod y mater yma.

Gofynnodd y cyngor i'r clerc ofyn am y wybodaeth ganlynol gan Greame mewn perthynas â'r prosiect hwn;

- Mae'r cyngor yn nodi y bydd sgwteri'r Tramper yn cael eu defnyddio oddi ar y ffordd yn unig, ydy hyn yn gywir?

- Ni fyddai'r cyngor am i'r prosiect effeithio ar fynediad defnyddwyr ffyrdd eraill pe bai rhan o'r priffyrdd cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn ystod y treialon.
- Oes yna unrhyw sefydliadau eraill sy'n rhan o'r prosiect fel Cyngor Gwynedd yn rhan o'r treialon?
- Pe bai y treialon  yn llwyddiannus a oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y llwybrau?

**Caru Coed y Brenin.**

Mae cwmni Inigo Jones o Llanberis wedi cytuno gwneud astudiaeth dwyasiblrwydd o ran nodau ac amcanion rhedeg Coed y Brenin fel busnes.

Bydd y broses yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosib.

**Cynghorwr Sir.**

Mae’r cynghorwr wedi derbyn cais yn ymwneud a ymgynghoriad cyhoeddus rhif EPR/GB3835DE/V006 ynglyn a Gorsaf Bwer Trawsfynydd. Bydd y clerc yn gyrru copi o’r e-bost i’r cynghorwyr a gofyn am sylwadau yn ymwneud a’r mater.

Bydd Cyng Griffiths yn dosbarthu mwy o wybodaeth ar y mater wedi cysylltu a arbenigwyr ar y pwnc.

**Polisi tai cymdeithasol yn ymwneud ag ADRA a Chyngor Gwynedd**.

Mewn cyfarfod diweddar cafodd y Cynghorydd Griffiths wybod fod y rheolau yn ymwneud â chyfnewid tai cymdeithasol rhwng tenantiaid p'un a ydynt yn byw yng Ngwynedd neu fel arall.

Mae'n ymddangos nad oes gan y sefydliad tai ADRA fawr neu ddim pŵer yn ystod proses o'r fath, nid ydynt yn gallu ymyrryd ac atal cyfnewid os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r cynghorwyr yn teimlo bod y polisi hwn yn gweithio i anfantais pobl sy'n aros ar restrau tai ar gyfer eiddo ac yn cyfyngu datblygiad cymunedau lleol.

Codwyd ofnau a yw ADRA yn edrych ar gefndir tenantiaid newydd mor drylwyr ag y byddent yn ystod cais arferol.

Bydd y cyngor yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn codi'r pwyntiau hyn.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Mae'r cyngor wedi gofyn i'r cwmni lleol Gofal Tir a Choed,Trawsfynydd wneud y gwaith eleni.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mehefin 2024.

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4930.45 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £7.00 |
| Rhodd Capel Libanus | £150.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £4673.45 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdurdododd y cyngor dalu'r anfonebau canlynol;

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru (hyfforddiant) | £40.00 |
| Zurich (yswiriant) | £468.06 |
| Microsoft office | £39.99 |
| Partneriaeth toiled Ganllwyd | £250.00 |

**Unrhyw fater arall.**

Bydd Cynghorydd Griffiths yn cysylltu â Teligent Telecom o ran y gwaith sy'n digwydd ar fastiau telathrebu yn Dol Frwynog ac yn ceisio canfod y sefyllfa bresennol.